Pryfed Peillio Cymru
Pollinators in Wales

**Tasglu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio (APP) – Bee Friendly / Caru Gwenyn**

**Mawrth 23 2018 Tŷ Ladywell, Y Drenewydd**

Yn bresennol:

| | | |
|---|---|---|
| Clare Dinham | - | Buglife Cymru |
| Andrew Lucas | - | Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Stephen Rose | - | BIBBA |
| Natasha de Vere | - | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru - Cadeirydd |
| Jan Miller | - | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru |
| Alison Heal | - | Cyngor Sir Ceredigion |
| Francis Gellatly | - | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) |
| Marc Carlton | - | WLGF |
| Jenny Shaw | - | Cymdeithas Gwenynwyr Cymru |
| John Bowles | - | Cymdeithas Gwenynwyr Cymru |
| Nigel Leaworthy | - | Cyngor Sir Fynwy |
| David Edge | - | Calon Wen |
| Lynfa Davies | - | Menter a Busnes |
| Angus Garbutt | - | Canolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) |
| Shane Hughes | - | Prosiect y Goedwig Hir |
| Maria Golightly | - | Grow Wild, Gerddi Kew |
| Simon Bilsborough | - | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Sam Lloyd-Williams | - | LlC |
| Paul McCullough | - | LlC |

1. **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**
   Agorodd Natasha de Vere y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau. Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y sawl nad oedd yn gallu mynychu ar y diwrnod.

2. **Cynllun Cenedlaethol Monitro Pryfed Peillio**
   Cyflwynodd Angus Garbutt o'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg bapur ar waith y Cynllun Cenedlaethol Monitro Pryfed Peillio (POMS) y mae'r Ganolfan yn ei gynnal, ac sydd wedi'i ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.

   Codwyd pwynt gan Natasha y dylid adolygu dogfennau cyfredol POMS gan fod rhai yn Saesneg yn unig. Gan fod POMS yn brosiect i'r DU gyfan, gyda chyllid Llywodraeth Cymru, cytunwyd y dylid cynnig dogfennau yn y Gymraeg fel bod y prosiect yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Gofynnodd Angus hefyd i'r aelodau hysbysu o fewn eu sefydliadau y cyfleoedd monitro gwirfoddol a ddarperir ar gyfer cynllun POMS.

https://www.ceh.ac.uk/our-science/projects/pollinator-monitoring

3. **Pla Gwenyn Meirch Asiaidd 2017**
Rhoddodd Frank Gellatly ddiweddariad am y pla o Wenyn Meirch Asiaidd a fu yn Nyfnaint yn 2017, y gwersi a ddysgwyd a'r mesurau wrth gefn sydd ar waith er mwyn atal unrhyw achosion posibl pellach. Cyflwynodd Frank hefyd Adroddiad Blynyddol APHA 2017 sy'n amlinellu'r gwaith a wneir gan APHA yng Nghymru, gan gynnwys archwiliadau afiechydon egsotig.

http://www.nationalbeeunit.com/index.cfm?pageid=168

4. **Prosiect Tyfu'r Dyfodol a Chynllun Gwarant Planhigion i Beillwyr**
Cyflwynodd Natasha de Vere o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru brosiect Tyfu'r Dyfodol (GTF), sy'n anelu at ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth arddwriaethol i unigolion a grwpiau ledled Cymru. Mae'n brosiect pum mlynedd a ariennir trwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Wledig 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Uned Ewropeaidd.

Mae'r cynllun gwarant 'Planhigion i Beillwyr' yn rhan o raglen PhD i greu rhestr sydd wedi'i dilysu'n wyddonol o'r planhigion gorau i beillwyr. Bydd y prosiect hwn yn defnyddio tystiolaeth wyddonol i greu'r rhestr hon ac yn ei defnyddio i ddatblygu cymysgiadau o hadau sy'n helpu peillwyr a fydd ar gael i'w defnyddio mewn gerddi ledled y DU.

https://botanicgarden.wales/press/growing-future-national-botanic-garden-wales/

https://botanicgarden.wales/2018/02/plants-pollinators-creating-pollinator-friendly-seed-mixes-gardens-urban-green-spaces/

5. **Porfa i Beillwyr**
Rhoddodd Lynfa Davies, Menter a Busnes a David Edge, Calon Wen drosolwg o Brosiect Porfa i Beillwyr RDP. Mae David yn rhan o Grŵp Llaeth Cydweithredol Calon Wen, sef grŵp o 18 o ffermydd teuluol organig ledled Cymru, ac esboniodd sut y gellir rheoli adnoddau porthi ar ffermydd llaeth i warchod a chynyddu poblogaeth gwenyn a pheillwyr eraill. Yn ogystal â chynyddu effeithlonrwydd a pherfformiad ariannol ffermydd, y nod yw cynyddu niferoedd ac amrywiaeth planhigion bwyd i beillwyr.

https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/pasture-pollinators

6. **Prosiect y Goedwig Hir**
Rhoddodd Shane Hughes, Cadwch Gymru'n Daclus, gyflwyniad ar Brosiect y Goedwig Hir, a ddatblygwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus mewn partneriaeth â

Choed Cadw, a gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Sefydliad Esmee Fairbairn. Nod y prosiect yw gweithredu'n ymarferol mewn mannau penodol yng Nghymru, gan blannu 100,000 o goed a gwella tua 120,000m o goedwrych.

Mae'r prosiect hefyd yn anelu at godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd coedwrych a'u dibenion, tynnu sylw at eu gwerth hanesyddol ac arolygu eu cyflwr. Mae'r prosiect yn gweithredu'n ymarferol ledled Cymru, gan weithio gyda thirfeddianwyr a grwpiau cymunedol i helpu rheoli, gwella ac ymestyn coedwrych, drwy hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli. Mae'r prosiect hefyd yn bwriadu datblygu ap ar gyfer arolygu coedwrych a fydd yn creu cofnodion, a bydd y cofnodion hynny yn tynnu sylw at gyflwr coedwrych ledled Cymru.

https://www.keepwalestidy.cymru/longforest

7. **Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio – Cymryd Stoc**
Ar ôl cinio, rhoddodd Paul McCullough o Lywodraeth Cymru ddiweddariad i'r aelodau ar y gwaith cymryd stoc parhaus mewn cysylltiad â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i weithio ar gymryd stoc, a chyflwynodd Paul y ddogfen cymryd stoc ddrafft gan dderbyn sylwadau a thrafodaeth yr aelodau.

Derbyniwyd y sylwadau hyn a byddant yn cael eu hychwanegu at y broses cymryd stoc. Gosodwyd dyddiad cau sef diwedd Ebrill ar gyfer derbyn unrhyw sylwadau terfynol gan aelodau (dylid e-bostio sylwadau i Lywodraeth Cymru), yn enwedig i aelodau'r grŵp gael nodi eu camau gweithredu arfaethedig i'r cyfnod 2018 - 2020. Trafodwyd a chytunwyd ar ddyddiad lansio yn ystod haf 2018. Bydd digwyddiad addas yn cael ei drefnu gyda phresenoldeb Gweinidog (i'w gadarnhau gyda'r Swyddfa Breifat).

8. **Diwedd y Cyfarfod**
Daeth Natasha a'r cyfarfod i'w derfyn a diolchodd i'r aelodau am fynychu. Diolchodd hefyd i'r sawl roddodd gyflwyniadau i'r grŵp.

**Camau gweithredu**

- Paul McCullough i ddosbarthu cyflwyniadau'r bore i'r aelodau.
- Paul McCullough ac Angus Garbutt i adolygu dogfennau cyfredol POMS mewn perthynas â darparu fersiynau Cymraeg.
- Pawb i ystyried proses Cymryd Stoc y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio ac unrhyw sylwadau terfynol i'w hanfon i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd **Ebrill 2018.**
- Swyddogion polisi Llywodraeth Cymru ar Reoli Tir i fynychu'r cyfarfod nesaf.
- Llywodraeth Cymru i wirio os yw data Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir yn cofnodi'r math o fferm yn organig neu'n anorganig.
- Llywodraeth Cymru i drafod gyda CEH y posibilrwydd o gynnal dadansoddiad pellach o ddata Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir parthed pryfed peillio. https://gmep.wales/
- Llywodraeth Cymru i gydnabod bod Jan a Marc wedi cynhyrchu rhestr o blanhigion Caru Gwenwyn, ym Mhroses Cymryd Stoc y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio.

- Jan Miller i drosglwyddo gwybodaeth ar astudiaeth achos yng Nghonwy i'w chynnwys o fewn Proses Cymryd Stoc y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio.
- Llywodraeth Cymru i ddosbarthu safbwyntiau blaenorol Tasglu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio ynghylch sut all Glastir gynorthwyo pryfed peillio.
- Dyddiad  Cyfarfod Nesaf – **I'w gadarnhau**